## Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23

Mae'r Gwasanaethau Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu’r data yma. Diben y ffurflen hon yw monitro effeithiolrwydd polisi cyfredol a helpu i ddatblygu polisi yn y dyfodol yn y maes hwn.

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language: Cymraeg/Welsh

## Gwybodaeth am y darparwr

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

## Dilysu

| Dolennau | Wedi ei gwblhau |
|---|---|
| Canllawiau | |
| Canllawiau technegol | |
| Diffiniadau | |
| Tabl cyfeirio ffynhonell ariannu | |
| Manylion cyswllt | 0% |
| Byrdwn wrth ymateb arolygon | 0% |

| Dolennau ffurflen | Dilysu 1 wedi gwblhau | Dilysu 2 wedi gwblhau |
|---|---|---|
| Tabl 1 >> | 30% | 100% |
| Tabl 2 >> | 17% | 100% |
| Tabl 3 >> | 20% | 100% |
| Cyfanswm | 13% | 100% |

**Dychwelwch y ffurflen trwy Afon cyn 10 Tachwedd 2023**

http://www.afonwales.org.uk

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch:**

E-bost: casgliadautai@Llyw.Cymru

afon

ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Fersiwn 1 - 13/01/2016

## Canllawiau technegol ar gyfer llenwi'r ffurflen



**Llywio**

Byddwch yn gallu symud o ddalen i ddalen trwy glicio ar yr hyperddolen briodol.

Er enghraifft, i ddychwelyd i'r hafan cliciwch yr hyperddolen "Yn ôl i'r Hafan".

**Eitemau data gofynnol**

Yn y daenlen hon, mae'r nodweddion canlynol i'r celloedd y mae angen data arnynt:

Bydd yr holl gelloedd y mae angen data arnynt yn cael eu lliwio'n las golau.

Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

Nid oes angen llenwi rhai celloedd am nad ydynt yn berthnasol. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd tywyll. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

**Os nad ydych yn gallu rhoi unrhyw eitem o ddata, gadewch y gell yn WAG. Peidiwch â rhoi testun (NA, N/A neu Heb ei gasglu ac ati) yn unrhyw gell ar wahân i'r celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd bod sero mewn unrhyw gell yn golygu cyfrif o sero ar gyfer yr eitem ddata hon.**

**Sylwadau**

Mae gofod gwyn wedi cael ei ddarparu gerllaw pob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes unrhyw eitemau data ar goll yna mae'n rhaid ychwanegu sylw i'r daenlen.

**Dilysiad 1**

Mae dilysiad 1 yn cynnwys gwirio am wallau synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy AFON.

✓ Bydd eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysu yn cael eu lliwio'n wyrdd.

✗ Bydd eitemau data lle nad oes data'n cael ei ychwanegu, neu sy'n torri rheol ddilysu, yn cael eu lliwio'n goch. Dylech roi sero lle mae'r eitem ddata yn ddim, neu roi sylw.

✎ Bydd eitemau data sydd ar goll gyda sylw wedi ei roi yn cael eu lliwio'n ambr.

**Dilysiad 2**

Mae Dilysiad 2 yn cynnwys cymharu gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol a chwilio am newidiadau mawr. Bydd y dilysiad yn nodi'r eitemau data sydd wedi newid o fwy na swm a ddiffinnir ymlaen llaw rhwng y blynyddoedd. Caiff yr eitemau data hyn eu nodi yng ngholofn D2 o'r daenlen.

✓ Caiff eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysiad eu lliwio'n wyrdd.

✎ Mae angen i eitemau data sydd wedi newid mwy na 10% gynnwys esboniad am y newid. Mae'n rhaid i'r esboniadau gynnwys rhesymau am y newid ac nid dangos bod newid wedi digwydd neu gadarnhau y newid yn unig.

✎ Caiff eitemau data lle mae esboniad wedi cael ei roi eu lliwio'n ambr.

## Diffiniadau



| | |
|---|---|
| Anheddau | Yn cynnwys Tai Amlfeddiannaeth (HMO) fel y diffinnir isod. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2004 hefyd wedi ymestyn hyn i gynnwys pawb sy'n meddiannu carafanau fel eu hunig neu eu prif breswylfa. |
| Wedi ei hwyluso gan yr awdurdod lleol | Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd, er enghraifft trwy ddarparu'r arian i'r trydydd parti roi'r benthyciad. |
| Tai Amlfeddiannaeth (HMO) | Caiff y rhain eu diffinio yn adrannau 254-260 o Ddeddf Tai 2004 fel adeilad neu ran o adeilad sydd:<br>(i) yn bodloni'r prawf safonol;<br>(ii) yn bodloni'r prawf fflat annibynnol;<br>(iii) yn bodloni'r prawf adeilad wedi ei addasu;<br>(iv) â datganiad HMO mewn grym; neu<br>(v) mae'n floc o fflatiau wedi ei addasu. |
| Cyfraniadau trigolion | Dylid cyfrif y rhain pan gaiff y grant neu'r cymorth ei ddyfarnu. Caiff swm y cyfraniad ei bennu gan y prawf adnoddau sy'n cael ei osod gan yr awdurdod lleol. |

Ceir mwy o ddiffiniadau yn Neddf 2004:

Deddf Tai 2004

Nodiadau esboniadol ar gyfer Deddf Tai 2004

a Deddf 1996

Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996

## Tabl cyfeirio ffynhonell ariannu

Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23

Yn ôl at yr Hafan

| Ffynhonell ariannu | Cynnwys mewn ffurflen: | | |
|---|---|---|---|
| | DFG | Ardaloedd Adnewyddu | PSR |
| Grantiau ar gyfer Cyfleusterau i Bobl Anabl | ✓ | ✓ fel gwariant ALI | ✗ |
| Gwariant Awdurdod Lleol (Cronfa cyfalaf cyffredinol) | ✗ | ✓ fel gwariant ALI | ✓ fel grantiau neu fenthyciadau |
| Grantiau tai amlfeddiannaeth (HMOs) | ✗ | ✓ fel gwariant ALI | ✓ fel grantiau |
| Benthyciadau gan yr awdurdod lleol am y cost ychwanegol o DFGs uwchben y grant uchaf | ✓ yn rhes 9 | ✓ fel gwariant ALI | ✗ |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | ✗ | ✓ fel gwariant ALI | ✓ fel grantiau |
| Cymorth Houseproud | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✓ yn Nhabl 1, rhes 6 |
| Grant cyfalaf penodol (SCGs) | ✗ | ✓ fel SCG | ✗ |
| Gwariant sector preifat | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Cyfraniad y trigolion | ✓ yn rhes 6 | ✓ fel cyfraniad y perchennog | ✓ yn Nhabl 1, rhes 5 |
| Gwariant sector gwirfoddol | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Gwariant Cymunedau yn Gyntaf | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Gwariant Bwrdd Iechyd Lleol | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Gwaith amgylcheddol | ✗ | ✓ fel yn addas | ✗ |
| Blaenau'r Cymoedd | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Groundwork | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Flying Start | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Cyllid Strwythurol Ewropeaidd | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |
| Gwariant Parc Cenedleuthol | ✗ | ✓ fel cymorth trydydd parti | ✗ |

## Canllawiau Cyffredinol



**Yn Cynnwys:**

(i) Cymorth ar gyfer adnewyddu tai gan awdurdodau lleol o dan 'Orchymyn Diwygio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002';

(ii) Unrhyw weithgaredd gweddilliol a gymeradwywyd cyn Gorffennaf 2003 o dan Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996;

(iii) Dim ond gwariant awdurdod lleol.

(iv) Gwariant ar gymorth unigol a grwp.

**Dylid eithrio:**

(i) Unrhyw grantiau neu fenthyciadau a gofnodwyd ar y ffurflen DFG (Grant Cyfleusterau Anabl);

(ii) Unrhyw Grantiau Cyfalaf Penodol (SCGs) neu grantiau eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol;

(iii) Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a elwid yn JESSICA gynt (Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig);

(iv) Unrhyw gymorth trydydd parti.

(v) Gwariant ar waith amglycheddol a gwariant 'arall' fel a dangosir ar gasgliad ardaloedd adnewyddu.

### Tabl 1: Cymorth ar gyfer adnewyddu tai

| | |
|---|---|
| **1.1** | Mae'r tabl hwn yn cofnodi cyfansymiau crynodeb yr anheddau a wellwyd, gwariant gros awdurdod lleol (benthyciadau a grantiau) a chyfraniad y trigolion i'r gwaith. |
| **1.2** | Dylai cyfanswm yr anheddau a wellwyd (rhes 1) gyd-fynd ar draws tablau 1, 2 a 3. |
| **1.3** | Cofnodwch yr anheddau hynny a wellwyd (rhes 1) lle mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn yn unig. |
| **1.4** | Cofnodwch yr holl wariant yn ystod y flwyddyn. Noder bod hyn yn golygu na allwch ddefnyddio 'nifer yr anheddau a wellwyd' a ffigurau 'gwariant' i ddod o hyd i gyfartaledd. |
| **1.5** | Cofnodwch gyfanswm y grantiau yn rhes 2, colofn a, ac nid nifer yr anheddau a wellwyd gan grantiau. |
| **1.6** | Dylid cynnwys grantiau adleoli yn grantiau (rhes 2). |
| **1.7** | Ar gyfer yr holl grantiau a'r benthyciadau a roddir mewn rhandaliadau, cofnodwch nifer y grantiau a'r benthyciadau a gwblhawyd (colofn a) yn ystod y rhandaliad olaf yn unig. Fodd bynnag, cofnodwch yr holl wariant yn ystod y flwyddyn (colofn b). Fel gyda nifer yr anheddau, mae hyn yn golygu na allwch gyfrifo cyfartaledd o'r ddau ffigur hyn. |
| **1.8** | Cofnodwch gyfanswm y benthyciadau yn rhes 3, colofn a, ac nid nifer yr anheddau a wellwyd gan fenthyciadau. |
| **1.9** | Dylai nifer y swm y benthyciadau yn rhes 3 fod yn fwy na neu'n gyfwerth â'r ffigurau a ddarparwyd yn nhabl 2 o'r ffurflen 'ardaloedd adnewyddu'. |
| **1.10** | Mae'n rhaid i fenthyciadau trydydd parti gael eu hwyluso gan yr awdurdod i gael eu cynnwys yn y data hwn. |
| **1.11** | Dylai cyfanswm gwariant (rhes 7) anheddau a gwblhawyd gyfateb ar draws tablau 1, 2 a 3. |
| **1.12** | Mae cymorth trydydd parti arall yn cynnwys Cymru Gynnes, ECO, y Fargen Werdd, Nest ac Arbed |
| **1.13** | Gofynnir am fenthyciadau trydydd parti mewn gros, hynny yw swm y benthyciad ac eithrio unrhyw log. |

### Tabl 2: Pob gwariant yn ôl deiliadaeth

| | |
|---|---|
| **2.1** | Mae'r tabl hwn yn rhannu nifer yr anheddau a wellwyd a'r gwariant fel y cofnodir yn nhabl 1 yn ôl deiliadaeth. |
| **2.2** | **Perchen-feddiannydd**<br>Trigolion sydd yn berchen ar eu cartref eu hunain neu sy'n berchen arno gyda morgais. |
| **2.2** | **Rhentu preifat**<br>Trigolion sydd yn rhentu eu anheddau o landlord preifat. |
| **2.3** | **Landlord Cymdeithasol**<br>Trigolion sydd yn rhentu naill ai gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) neu'r awdurdod lleol. |
| **2.4** | Os oes gan annedd ddeiliadaeth canolradd, dewiswch y ddeiliadaeth fwyaf priodol a'i chofnodi unwaith yn unig. |

### Tabl 3: Pob gwariant yn ôl derbynnydd

| | |
|---|---|
| **3.1** | Mae'r tabl hwn yn rhannu nifer yr anheddau a wellwyd a'r gwariant fel y cofnodir yn nhabl 1 yn ôl math. |
| **3.2** | Pan roddir y cymorth i'r landlord, dylid ei ddyrannu i'r 'math o dderbynnydd' yn nhermau meddiannydd yr annedd. |
| **3.3** | Mae 'pobl hŷn' yn cynnwys ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd 60 oed ac yn hŷn. |
| **3.4** | Os yw derbynnydd yn dod o dan fwy nag un categori, cyfrifwch nhw unwaith yn unig.<br>Dyrannwch gategori ar eu cyfer yn y drefn ganlynol:<br>1. Anabl;<br>2. Pobl hŷn;<br>3. Arall. |

## Manylion cyswllt

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23

Byrdwn wrth ymateb arolygon

Yn ôl at yr Hafan

Rhowch fanylion cyswllt eich awdurdod isod. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyfeirio unrhyw ymholiadau at y cyswllt cywir

**Ffurflen wedi'i chwblhau gan/Prif gyswllt ymholiadau data:**

| | | D1 |
|---|---|---|
| Enw | | ✘ |
| Rhif ffôn | | ✘ |
| E-bost | | ✘ |

**Manylion cyswllt arall**

| | | |
|---|---|---|
| Enw | | ✘ |
| Rhif ffôn | | ✘ |
| E-bost | | ✘ |

## Byrdwn wrth ymateb arolygon

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd
Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23
Tabl 1
Yn ôl at yr Hafan

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Nodwch nifer yr oriau wedi'u cymryd i gwblhau'r ffurflen hon fesul gradd pob aelod o staff:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen trwy AFON.

| Gradd y staff | Oriau wedi'u cymryd | D1 |
|---|---|---|
| Band 1 (£11,500 - £19,999) | | ✘ |
| Band 2 (£20,000 - £26,999) | | ✘ |
| Band 3 (£27,000 - £33,999) | | ✘ |
| Band 4 (£34,000 - £53,999) | | ✘ |
| Band 5 (£54,000+) | | ✘ |

**Sylwadau**

## Tabl 1 - Cymorth ar gyfer adnewyddu tai

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

Yn ystod y flwyddyn

Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23

Ewch i'r canllawiau
Ewch i'r diffiniadau
Ewch i dabl cyfeirio ffynhonell ariannu
Yn ôl at yr Hafan

| | | 2022-23 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Swm (£) | D1 | | Sylwadau |
| | | a | b | a | b | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | | | ✗ | | |
| 2 | Grantiau Awdurdod Lleol | | | ✗ | ✗ | |
| 3 | Benthyciadau Awdurdod Lleol | | | ✗ | ✗ | |
| 4 | **Cyfanswm y cymorth** | 0 | 0.00 | ✓ | ✓ | |
| 5 | Cyfraniad y trigolion | | | | ✗ | |
| 6 | Cymorth trydydd parti a benthyciadau a hwyluswyd gan yr awdurdod lleol | | | | ✗ | |
| 7 | **Cyfanswm Gwariant** | | £0.00 | | ✓ | |

| | | 2021-22 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | Swm (£) | D2 | | Sylwadau |
| | | a | b | a | b | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | - | | ✓ | | |
| 2 | Grantiau Awdurdod Lleol | - | - | ✓ | ✓ | |
| 3 | Benthyciadau Awdurdod Lleol | - | - | ✓ | ✓ | |
| 4 | **Cyfanswm y cymorth** | - | - | ✓ | ✓ | |
| 5 | Cyfraniad y trigolion | | - | | ✓ | |
| 6 | Cymorth trydydd parti a benthyciadau a hwyluswyd gan yr awdurdod lleol | | - | | ✓ | |
| 7 | **Cyfanswm Gwariant** | | - | | ✓ | |

**Sylwadau**

## Tabl 2: Pob gwariant yn ôl deiliadaeth

Ewch i'r canllawiau | Ewch i'r diffiniadau | Ewch i dabl cyfeirio ffynhonell ariannu

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd
Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23
Yn ôl at yr Hafan

Yn ystod y flwyddyn

Mae'n rhaid i gyfanswm colofn (colofn f) y tabl hwn fod yn gyfwerth â rhes 'cyfanswm cymorth' (rhes 7) tabl 1.

| | | 2022-23 | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Perchen-feddiannydd | Rhentu preifat | Tenant RSL | Tenant awdurdod lleol | Nid yw'r math o ddeiliadaeth yn hysbys | **Cyfanswm** | **D1** | | | | | | **Sylwadau** |
| | | a | b | c | d | e | f | a | b | c | d | e | f | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | | | | | | 0 | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | ✓ | |
| 2 | Cyfanswm Gwariant (£) | | | | | | £0.00 | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | ✘ | ✓ | |

Mae'n rhaid i gyfanswm colofn (colofn e) y tabl hwn fod yn gyfwerth â rhes 'cyfanswm cymorth' (rhes 4) tabl 1.

| | | 2021-22 | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Perchen-feddiannydd | Rhentu preifat | Tenant RSL | Tenant awdurdod lleol | Nid yw'r math o ddeiliadaeth yn hysbys | **Cyfanswm** | **D2** | | | | | | **Sylwadau** |
| | | a | b | c | d | e | f | a | b | c | d | e | f | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | - | - | - | - | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 2 | Cyfanswm Gwariant (£) | - | - | - | - | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

**Sylwadau**

## Tabl 3: Pob gwariant yn ôl derbynnydd

Yn ystod y flwyddyn

Ewch i'r canllawiau Ewch i'r diffiniadau Ewch i dabl cyfeirio ffynhonell ariannu

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2022-23

Yn ôl at yr Hafan

Mae'n rhaid i gyfanswm colofn (colofn e) y tabl hwn fod yn gyfwerth â rhes 'cyfanswm cymorth' (rhes 7) tabl 1.

| | | 2022-23 | | | | | D1 | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pobl hŷn (60+) | Anabl | Arall | Nid yw'r math o dderbynnydd yn hysbys | **Cyfanswm** | | | | | | |
| | | a | b | c | d | e | a | b | c | d | e | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | | | | | 0 | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | |
| 2 | Cyfanswm Gwariant (£) | | | | | £0.00 | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ | |

Mae'n rhaid i gyfanswm colofn (colofn e) y tabl hwn fod yn gyfwerth â rhes 'cyfanswm cymorth' (rhes 4) tabl 1.

| | | 2021-22 | | | | | D2 | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pobl hŷn (60+) | Anabl | Arall | Nid yw'r math o dderbynnydd yn hysbys | **Cyfanswm** | | | | | | |
| | | a | b | c | d | e | a | b | c | d | e | |
| 1 | Cyfanswm yr anheddau sydd wedi eu gwella | - | - | - | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 2 | Cyfanswm y cymorth (£) | - | - | - | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

**Sylwadau**